

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy



ADRODDIAD BLYNYDDOL GOFAL CYMDEITHASOL CONWY

2017-18

Jenny Williams, Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac
Addysg

social.services2@conwy.gov.uk

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Cynnwys

Acronymau Cyffredin	iii
Cyflwyniad	1
Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr	2
Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau?	3
Hyrwyddo a gwella llesiant y rhai rydym yn eu helpu	7
Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni	7
Safon Ansawdd 2 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol	12
Safon Ansawdd 3 - Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed	17
Safon Ansawdd 4 - Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas	21
Safon Ansawdd 5 - Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol diogel	25
Safon Ansawdd 6 - Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion	27
Sut Ydym ni'n Cyflawni yr Hyn Rydym ni'n ei Wneud	32
Edrych ymlaen at 2018-19 a thu hwnt	36
Rhagor o Wybodaeth a Dogfennau Pwysig	v

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Acronymau Cyffredin

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
CAMHS	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
CAT	Tîm Mynediad Conwy
CBSC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
COG	Grŵp Canlyniadau Conwy
CSE	Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant
CGGC	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
TLIC	Tîm Lles Cymunedol
FS	Dechrau'n Deg
ICF	Cronfa Gofal Canolraddol
LAC	Plant sy'n Derbyn Gofal
MARAC	Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth
BDOGC	Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru
PCSO	Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu
PLO	Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
RRF	Teuluoedd Gwledig yn Gyntaf
SERAF	Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol
TAF	Tîm o Amgylch y Teulu
LIC	Llywodraeth Cymru

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad blynyddol yw nodi taith yr awdurdod lleol tuag at welliant wrth ddarparu gwasanaethau i breswylwyr Conwy. Mae'r adroddiad yn ceisio dangos sut rydym wedi hyrwyddo lles a rhoi cyfrif am ddarparu safonau llesiant. Mae'n rhoi gwybod am feysydd datblygiad newydd – yn hytrach na phob agwedd o'n gwaith, ac yn gwerthuso ein perfformiad mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r adroddiad blynyddol yn ofyniad ar bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae ein blaenoriaethau gwasanaeth wedi'u halinio i chwe Safon Ansawdd Cenedlaethol y deilliannau llesiant, ac yn erbyn y meysydd hyn rydym yn dangos sut rydym wedi cyflawni yn erbyn y chwe maes, trwy roi gwybodaeth am ddatblygiadau, astudiaethau achos, canlyniadau arolwg ac adborth, a mesuryddion perfformiad. Y chwe safon yw:

- 1) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.
- 2) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.
- 3) Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.
- 4) Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas.
- 5) Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol diogel.
- 6) Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Lluniwyd yr adroddiad ar gyfer y cyhoedd, ond bydd hefyd yn rhoi cipolwg ar ein taith tuag at welliant i ystod eang o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys Cyngorwyr, ein partneriaid, ein rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Rydym yn ymgysylltu yn rheolaidd â'n budd-ddeiliaid ac yn gwerthfawrogi adborth gan y bobl rydym ynghlwm â nhw, ac mae enghreifftiau o'r adborth hwn drwy gydol yr adroddiad hwn. Mae dyluniad yr adroddiad yn seiliedig ar fformat yr oedd ein Cyngor leuencid ynghlwm â'i ddewis.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

Croeso i adroddiad blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy ar gyfer 2017/18. Eleni, rydym wedi edrych ar sut y gallwn ddangos sut y mae'r gwasanaethau rydym yn eu darparu yn canolbwyntio ar brofiadau defnyddwyr gwasanaeth a'r 6 safon ansawdd allweddol a ddisgrifiwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rydym wedi gweithio yn galed i wneud yn siŵr ein bod yn gwrandao ac wedi cynnal arolwg dinasyddion o'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau eto eleni. Anfonwyd dros 2000 o holiaduron ac mae'r nifer dda o ymatebion a gafwyd wedi ein galluogi i ystyried ffynhonnell gyfoethog yr adborth i ddatblygu ymhellach neu 'aros ar y trywydd cywir'.

Rydym wedi cynnal perfformiad da yn y gwasanaethau pobl hŷn, gwybodaeth, cyngor a chymorth a'r gwasanaethau plant. Clywsom gan bobl bod cysylltu yn well â phartneriaid eraill fel iechyd yn gwneud gwahaniaeth ac rydym wrth ein bodd y byddwn yn datblygu ein timau adnoddau cymunedol ymhellach yn y flwyddyn sydd i ddod.

Rydym wedi canolbwyntio ar gymorth a chefnogaeth cynnar; gan weithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector mae gennym bellach gyfuniad sefydledig o wasanaethau llesiant cymunedol. Maent yn amrywio o gefnogi plant a'u teuluoedd i weithio i hyrwyddo iechyd meddwl da ar draws oedrannau, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi'u heffeithio gan unrhyw gam o ddemtia.

Mae Diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth gwasanaeth a chorfforaethol, yn enwedig diogelu oedolion, lle rydym wedi bod angen buddsoddi mewn cefnogaeth a hyfforddiant i'n staff i ddylanwadu ar well proffil o ddangosyddion lle gallwn ddangos gwahaniaeth. Mae gennym waith rhagorol yr ydym yn ei arddangos yn genedlaethol yn y maes Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant ac mae'n arddangos yr arloesi rhagorol gan ymarferwyr rheng flaen.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi annog newid meddylfryd i annog pobl i feddwl am yr hyn sy'n bwysig iddynt nhw a chydweithio i gyd gynhyrchu cefnogaeth. Mae adborth rhagorol ar dudalen 21 yr adroddiad sy'n rhoi blas o'r cyfeiriad yn y maes hwn, ac rwy'n falch iawn o'r enghreifftiau.

Rydym wedi dechrau llunio gwasanaethau i blant a theuluoedd ar draws sbectrwm cyfan y gwasanaethau ac wedi manteisio yn enfawr o synergedd agos rhwng y timau cymorth cynnar fel Dechrau'n Deg a'r Tîm o Amgylch y Teulu a'n gwasanaethau i blant sydd angen gofal a chymorth.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn rhannu meysydd ardderchog lle rydym wedi datblygu dewisiadau llety arloesol ar gyfer rhai o'n defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys llwybrau cadarnhaol pobl ifanc a'n cynlluniau gofal ychwanegol llwyddiannus, ac rydym eisiau datblygu mwy o'r rhain.

Yn ddiweddar, gwnaethom lansio ein strategaeth gomisiynu yr ydym yn falch iawn ohoni, ac sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer ein gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghonwy mewn cyfnod o newid parhaus mewn deddfwriaeth a pholisi. Byddwn yn adrodd yn ôl bob blwyddyn ar ein huchelgeisiau yn y strategaeth i ddangos ein hymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaethau o ansawdd. Yn olaf, nodyn o ddiolch i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau am dreulio amser yn rhoi eu hadborth ac yn wir, i'n hased mwyaf – ein tîm o staff bendigedig.



Jenny

Jenny Williams

Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau?

Mae darganfod yr hyn sy'n bwysig i bobl yn rhan allweddol o ddatblygu gwasanaethau o ansawdd yng Nghonwy, felly gofynnwn am adborth gan y bobl yr ydym ynghlwm â nhw, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gawn i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Mae arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor, dros y blynyddoedd, wedi arddangos hygyrchedd ac ymrwymiad i gael barn dinasyddion trwy gynnal sesiynau galw heibio i ddinasyddion roi eu sylwadau a'u barn ar faterion sy'n ymwneud â'r gyllideb, y cynllun corfforaethol a strategaethau moderneiddio.

Mae nifer o enghreifftiau o farn a sylwadau'r cyhoedd yn dylanwadu ar bolisiau a phenderfyniadau yn y Cyngor, er enghraifft, cynllunio cyllideb ar gyfer 16/17 a 17/18, penderfyniadau Moderneiddio, a chasgliadau rheoli gwastraff. Mae Rheolyddion wedi rhoi gwybod bod gwaith y Cyngor yn adlewyrchu blaenoriaethau dinasyddion a phartneriaid yn gryno a chllir.

Mae Strategaeth Gyfranogi Gofal Cymdeithasol Conwy yn nodi ymrwymiad clir i ymgysylltu â Phlant, Pobl Ifanc, Oedolion a Gofalwyr wrth ddatblygu, cynllunio, darparu ac adolygu'r gwasanaethau a ddarperir iddynt. Rydym yn gweithio i sicrhau y gwelir dinasyddion Conwy fel partneriaid cyfartal wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd barn, safbwyntiau, dymuniadau, teimladau a phrofiadau dinasyddion Conwy yn cael eu casglu trwy ein fforymau a thrwy ymgynghori yn unigol â phobl i ategu ein hadolygiadau comisiynu.

Mae dau swyddog cyfranogi llawn amser yn gweithio ar draws y meysydd gwasanaeth gofal cymdeithasol i sicrhau ein bod yn ymgynghori ac ymgysylltu â phobl i ategu comisiynu gwasanaethau.

Rhwydwaith Cyfranogiad Oedolion

Mae'r Rhwydwaith Cyfranogiad Oedolion yn gwahodd unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu a dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth gofal cymdeithasol yng Nghonwy i ymaelodi. Mae ein haelodau yn cynrychioli nifer o feysydd gwasanaeth; pobl hŷn, gwasanaethau anabledd, gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, gwasanaethau anabledd corfforol a gwasanaethau triniaeth canser. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol ac yn ymgymryd â'r canlynol:

- Gwaith Ymgynghori Rheolaidd
- Testunau Gwaith Dewisol
- Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Pobl Conwy

Mae'r testunau rydym yn gweithio arnynt ar hyn o bryd yn cynnwys camddefnyddio sylweddau a gwaith prosiect pontio'r cenedlaethau.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Er mwyn ymgynghori â phlant a phobl ifanc yng Nghonwy, mae gennym 3 fforwm:

Cyngor Ieuenctid Conwy (11-25 oed)

Grŵp Siapio'r Dyfodol ar gyfer Oedolion Ifanc sy'n Gadael Gofal (15-25 oed)

Grŵp Lleisiau Uchel ar gyfer plant dan ofal (7-14 oed)

Rydym yn gweithio mewn cysylltiad â Gwasanaethau Ieuenctid Conwy a'r ysgolion uwchradd yng Nghonwy i annog aelodaeth ein grwpiau.

Rydym hefyd yn ymgynghori â'r Prosiect Llety Isallt ar gyfer pobl ifanc a all ddod yn ddigartref neu a fydd angen symud llety, ac rydym hefyd yn cefnogi cynghorau ieuenctid yn Unedau Atgyfeirio Disgyblion Conwy.

Arolygon

Yn Gofal Cymdeithasol, bob blwyddyn bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i ni gasglu data cenedlaethol ynglŷn â llesiant pobl sy'n cael gwasanaethau gennym; eleni, gwnaethom anfon 2294 o holiaduron i sampl o oedolion, a phob gofalwr, plentyn a person ifanc, a chawsom gyfradd ymateb o 31% ar y cyfan. Gwnaeth 40% o oedolion a gofalwyr ymateb i ni a 12% o blant a phobl ifanc. Rydym wedi dadansoddi'r canlyniadau cyn eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru i'w cyhoeddi.

Rydym hefyd yn gofyn cwestiynau manylach ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol. Er enghraifft, gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u rhieni/gofalwyr beth oedd eu barn am y gwasanaeth **Anabledd**, gan ganolbwyntio ar ansawdd yr wybodaeth yr ydym yn ei darparu a pha mor dda rydym yn cyfathrebu.

Dyma ddywedodd ein defnyddwyr gwasanaeth:

- *Mae'r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn cael digon o wybodaeth am y gwasanaeth.*
- *Nid oedd pawb wedi clywed am ein tudalennau gwe Anabledd, nac wedi clywed am, na defnyddio'r wefan Dewis.*
- *Nid oedd pawb yn credu ei bod yn hawdd cysylltu â ni, er bod rhai yn dibynnu ar eu teulu a gweithwyr cefnogi i wneud hyn ar eu rhan.*
- *Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cytuno bod ein staff yn cysylltu yn ôl â nhw wedi iddynt geisio cysylltu ond y gall fod yn "anodd cael gafael ar bobl; gallaf aros am alwad yn ôl sawl diwrnod yn ddiweddarach".*
- *Roedd bron bob defnyddiwr gwasanaeth a gofalwr yn cytuno y gallant ddefnyddio eu hiaith ddewisol wrth gysylltu â ni, gyda rhai yn defnyddio Cymraeg, rhai yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac eraill yn defnyddio arwyddion ac ystumiau fel eu cyfrwng dewisol.*
- *Roedd bron bob defnyddiwr gwasanaeth a gofalwr yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg a gyda pharch.*

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Dyma beth rydym yn bwriadu ei wneud

- Byddwn yn cynhyrchu llythyr o groeso yn amlinellu'r wybodaeth sylfaenol a manylion cyswllt.
- Byddwn yn helpu defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr i gael mynediad i'r rhyngwrwyd yn ein swyddfa yng Nghanolfan Marl ac yn defnyddio iPad i ddangos iddynt beth i'w wneud a pha wybodaeth sydd ar gael iddynt.
- Byddwn yn cyflwyno targed perfformiad lleol o 24 awr i ffonio galwyr yn ôl os na allwn siarad â nhw yn syth.
- Mae gennym gynllun gweithredu drafft corfforaethol ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrau a byddwn yn darparu cyfleoedd i'n staff fynychu dosbarthiadau Cymraeg a chynyddu'r nifer sy'n hyderus i siarad Cymraeg.

Rydym yn gofyn i bobl dros 65 oed sydd wedi cael pecyn ailalluogi i gwblhau holiadur ar safon y gwasanaeth rydym wedi'i ddarparu. Mae'n gofyn i unigolion am eu profiadau gyda ni, gan gynnwys a oedden nhw a'u grŵp cefnogi yn rhan o gytuno a chynllunio'r pecyn cefnogi, a wnaeth y gefnogaeth gwrdd â'u disgwyliadau ac a yw deilliannau personol yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y cyfnod. Gyda'r rhan fwyaf o becynnau ailalluogi yn parhau am chwe wythnos, mae'r holiaduron yn becynnau gwerthfawr ac arferol i gynorthwyo rheolwyr i gynllunio gofal a sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Rhai ymatebion enghreifftiol:

Ar ddiwedd eich cyfnod ymyrraeth cefnogi, a oeddech wedi cyflawni eich nodau?

"Oeddwn, yn gorfforol roeddwn bron ar y lefel yr oeddwn cyn fy salwch."

"Oeddwn. Diolch yn fawr – fyddwn i ddim wedi gallu gofyn am well gwasanaeth neu dîm."

Pa ran o'r gwasanaeth oedd y mwyaf gwerthfawr i chi?

"Y cyfan ohono ond roeddwn yn gwerthfawrogi'r cwrtseisi, effeithlonwydd a hiwmor."

"Y cysur."

"Cefais fy nghrosawu â gwên bob amser, gyda geiriau o anogaeth a chyingor ymarferol."

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Rydym hefyd yn falch o'n perfformiad:

- Y ganran o oedolion a gwblhaodd cyfnod o alluogi: Ac sydd â phhecyn gofal a chymorth llai – llai o gefnogaeth nag o'r blaen - 6 mis yn ddiweddarach ydi 9.85% (PMA20a)
- Y ganran o oedolion a gwblhaodd cyfnod o alluogi: Ac sydd heb becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach = 71.52% (PMA20b)

Mae ymgynghoriadau gyda phobl sy'n cael gwasanaethau gennym wedi'u cynnwys yn yr adroddiad dan y safon ansawdd perthnasol.

Cwynion a Sylwadau – Gwersi a Ddysgwyd

Mae gan bawb sy'n gwneud cwyn am Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru hawl i gael gwrandawriad. Rhaid i'w barn a'u teimladau gael eu clywed; a dylai eu pryderon gael eu datrys yn gyflym ac yn effeithiol. Gall cwynion amlygu ble mae angen i wasanaethau newid. Mae'n bwysig ein bod yn dysgu o gwynion, er mwyn nodi lle y dylid newid a gwella gwasanaethau o ganlyniad.

Mae'r gwersi mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o gwynion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi dweud wrthym:

- Bod **Cyfathrebu** yn allweddol i ddinasyddion a'u teuluoedd gael gwasanaethau; mae angen cyfathrebu unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau yn effeithiol iddynt; mae dychwelyd galwadau neu ffonio pan rydych wedi'i drefnu yn bwysig i sicrhau perthynas waith dda.
- **Ymgysylltiad rhagweithiol** gan y Swyddog Cwynion ynghyd â Rheolwyr Tîm ar ganlyniadau lefel (Datrysiaid Lleol) Cam 1 wrth gael datrysiaid cynnar o'r cwynion

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Hyrwyddo a gwella llesiant y rhai rydym yn eu helpu

Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

Beth mae ein Harolwg Dinasyddion wedi'i ddweud wrthym

Pobl yn dweud eu bod wedi derbyn yr wybodaeth a'r cyngor cywir pan roeddynt ei angen


Roedd 72% o ofalwyr, 77% o blant a 79% o oedolion yn cytuno gyda'r datganiad hwn. Nid oedd rhai pobl yn siŵr beth oedd ar gael iddynt ac felly nid oeddent yn teimlo y gallant ofyn y cwestiynau cywir. Roedd eraill yn ei chael yn anodd cael mynediad i wybodaeth ac yn teimlo y byddant yn manteisio o gyswllt amlach a mwy cyson gyda ni pan fydd eu cynllun gofal a chymorth ar waith.

Pobl yn dweud eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch

Roedd 98% o ofalwyr, 80% o blant a 93% o oedolion yn cytuno eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan staff Gofal Cymdeithasol.

“Mae gen i dîm gwych o ofalwyr sydd bob amser yn glên a gofalus ohonof.”

“Bob amser, ac mae dealltwriaeth ein gweithwyr cymdeithasol wedi gwneud y broses o ofalu yn haws.”



Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Pobl sydd â chynllun gofal a chymorth yn dweud eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am eu gweithiwr penodedig yn y gwasanaethau cymdeithasol

Mae 83% o ofalwyr, 85% o blant a 81% o oedolion yn cytuno eu bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am eu gofal a chefnogaeth, ond, mae sylwadau ychwanegol yn datgelu bod rhai yn teimlo rhwystredigaeth gyda'r broses o gael cefnogaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu pasio o un adran i'r llall. Nododd rhai gofalwyr pa mor werthfawr oedd aelodau staff penodol wrth gefnogi eu dyletswyddau gofalu a gwahaniaeth mor gadarnhaol y mae wedi'i wneud i'w bywydau.

“Cymorth gyda gofal seibiant yw'r unig beth sydd wedi ein cadw yn gall a'n galluogi i fynd ar wyliau gyda theulu a ffrindiau heb boeni – cefnogaeth ardderchog, diolch.”

Pobl yn rhoi gwybod eu bod yn teimlo yn rhan o unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'u gofal a chymorth

Roedd 81% o ofalwyr, 76% o blant a 76% o oedolion yn cytuno, gydag ymatebwyr o bob grŵp yn nodi bod hwn yn gyfrifoldeb ar y cyd, neu ar ran aelodau eraill o'r teulu.

Pobl sydd yn fodlon gyda'r gofal a chymorth y maent wedi'i dderbyn

Roedd 70% o ofalwyr, 78% o blant a 87% o oedolion yn fodlon gyda'r gofal a chymorth y maent wedi'i dderbyn gan Gonwy. Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd yn arddangos ystod o safbwyntiau; hoffai rhai gael mwy o gefnogaeth ond yn cydnabod bod adnoddau yn gyfyngedig. Roedd eraill yn gwerthfawrogi bod angen cefnogaeth ar gyfer eu llesiant ac yn canmol y staff oedd ynghlwm â'u gofal.

“Os oes un peth roeddwn yn hapus gydag o, y merched oedd yn gofalu amdanaf oedd hynny, roedd pob un ohonynt yn A1.”

Mae'n bwysig i ni bod pobl sy'n cael gofal a chefnogaeth yng Nghonwy yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd, felly mae'n bleser derbyn adborth a diolch gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd sy'n cadarnhau hyn. Mae ein tîm ailalluogi Pobl Hŷn yn derbyn llythyrau a chardiau yn rheolaidd sy'n dangos y rhyddhad a'r gwerthfawrogiad bod gofal o ansawdd yn cael ei ddarparu. Dyma rai enghreifftiau o'r sylwadau a gafwyd:

“Roedd fy ngwraig yn gwerthfawrogi'r modd cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig y gwnaeth [y gofalwyr] eu dyletswyddauhoffwn innau hefyd ddiolch i'r merched am dawelu unrhyw bryder oedd gennym, gan fod y rhain yn brofiadau newydd i ni.”

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

“Roedd gan y staff berthynas hyfryd gyda fy mam a gwnaethant ddiwallu ei hanghenion gyda chyfeillgarwch a chynhesrwyddhoffwn i chi wybod pa mor werthfawr yw'r gwasanaeth hwn i bobl fel fy niweddar fam a gofynnaf i chi basio ein gwerthfawrogiad i'r tîm bendigedig o staff gofal a wnaeth eu gorau iddi.”

“Hoffwn ddiolch yn fawr i bob dynes ddaeth ataf yn ystod fy nghyfnod gofal o chwech wythnos. Roeddech i gyd mor hyfryd a charedig, ni fyddwn wedi gallu ymdopi heboch chi. Rwy'n eich caru chi i gyd.”

Perfformiad Arall

Nid oedd 81% o oedolion a gafodd gyngor a chefnogaeth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth angen cysylltu â'r gwasanaeth eto o fewn 6 mis. Rydym yn falch o'r llwyddiant hwn gan ein bod yn sylweddol uwch na Chyfartaledd Cymru gyda'r canlyniad hwn. (PMA23)

Gwnaethom gwblhau 100% o asesiadau ar gyfer plant o fewn y graddfeydd amser statudol (PMC24)

Rhaglen Timau Adnoddau Cymunedol

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i gynllunio ar gyfer y dyfodol ac ystyried ffyrdd o wella ein hygyrchedd i ddinasyddion ledled Conwy. Rydym yn bwriadu sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol a fydd yn cynnwys timau o weithwyr proffesiynol, yn gweithio **mewn** cymunedau i ddarparu cefnogaeth iechyd, lles a gofal cymdeithasol i ardaloedd dynodedig.


Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu i drafod sut y gall timau amrywiol weithio mewn ffordd mwy integredig a sicrhau bod y model gwasanaeth newydd yn addas ar gyfer ei bwrpas ac yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae adborth wedi tynnu sylw at themâu ailadroddus mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth, yr angen am gydlyniant a chyfathrebu lleol, symleiddio prosesau cyfredol a phwysigrwydd defnyddio arbenigedd y staff cywir ym mhob lleoliad.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Amcanion y Rhaglen Tîm Adnoddau Cymunedol yw sicrhau:

- Model darparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer bob cymuned
- Gwasanaethau wedi'u cydlynu ac yn canolbwyntio ar y person ar gyfer pob dinesydd sydd eu hangen
- Gwaith partneriaeth ynghylch yr unigolyn
- Agwedd ataliol i wneud y gorau o annibyniaeth a gwytnwch
- Model gwaith effeithlon ac integredig
- Gwasanaethau sy'n gweithredu 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos

Bydd gwaith yn parhau i archwilio'r cyfleoedd i adeiladu ar y trefniadau gwaith partneriaeth cyfredol a sefydlu'r model gwaith mwyaf effeithiol. Yn syml, dylai edrych fel y model hwn ar y dde:



Sgyrsiau sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau

Mae sgyrsiau seiliedig ar ganlyniadau yn ganolog i brosiect arbrofol yng Ngwasanaeth Plant a Theuluoedd Conwy ac eisoes wedi'i sefydlu yn y Gwasanaeth Pobl Hŷn. Pwrpas y prosiect arbrofol yw archwilio cyfleoedd a heriau gweithredu ffocws ar ganlyniadau personol a theuluoedd.



Mae agwedd seiliedig ar ganlyniadau yn dechrau trwy dreulio amser yn deall beth sy'n bwysig i'r unigolyn a'u teulu. Mae hyn yn annog sefydliadau i symud oddi wrth agweddau a arweinir gan wasanaethau a'u herio i feddwl mewn modd sy'n canolbwyntio ar y person. Ni ellir cyflawni canlyniadau trwy ddarparu'r gwasanaeth sengl bob amser. Mae elfennau cadarnhaol yr agwedd hon yn cynnwys gwelliannau mewn perthnasau rhwng gweithwyr cymdeithasol a defnyddwyr gwasanaeth, a materion craidd yn cael eu nodi mewn modd newydd, a defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i wneud penderfyniadau am eu dyfodol.

Mae'r agwedd hon yn cydnabod bod canlyniadau yn cael eu cyflawni o fewn rhwydwaith ehangach y teulu, y gymuned leol a systemau gofal cymdeithasol.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol:

"Pan oeddwn yn cwffio gyda fy mrawd byddai hi [Gweithiwr Cymdeithasol] yn siarad gyda mi ac yn fy mhwylo. Ceisiodd hefyd fy helpu cymaint â phosibl, a gwranddo arnaf."

"Mae hi [Gweithiwr Cymdeithasol] yn fy mhwylo pan fyddaf yn ei gweld hi. Mae'n hawdd siarad gyda hi hefyd. Mae hi wir wedi ein helpu."

Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i weithredu'r newid agwedd hwn. Bydd hefyd yn gofyn am drafodaethau medrus i gael cydbwysedd rhwng darparu gofal a diogelu rhag niwed, tra'n parchu'r gwahanol aelodau o'r teulu.

I'r dyfodol, y nod yw i unigolion ymgysylltu â'r canlyniadau sy'n bwysig, tra bod ymarferwyr yn gweithio tuag at newidiadau cynaliadwy. Gobeithir y bydd yr agwedd hon yn arwain at leihad mewn atgyfeiriadau, lleihad mewn llwyth achosion a lleihad yn nifer y plant sydd dan ofal neu ar y Gofrestr Diogelu Plant. Yn seiliedig ar yr effaith, bydd cyflwyniad parhaus yn y Gwasanaeth Pobl Hŷn a'r holl wasanaethau eraill yn 2018-19.

Tîm Ymylon Gofal

Yng Nghonwy rydym yn ceisio cefnogi teuluoedd i gadw pobl ifanc yn ddiogel, gartref, ac atal plant a phobl ifanc rhag gorfod mynd i'r system ofal. Mae ein Tîm Ymylon Gofal wedi'i greu i helpu i atal rhwyg mewn teuluoedd, lleihau'r angen i dderbyn plant i ofal a gwella profiadau plant sydd eisoes dan ofal. Trwy ddarparu cefnogaeth ddwys ac ymarferol i'r teulu yn eu hamgylchedd cartref, mae gwaith y tîm yn canolbwyntio ar anghenion unigol y teulu ac yn mabwysiadu agwedd integredig i osgoi argyfwng yn y cartref. Mae staff yn brofiadol ac wedi'u hyfforddi i safon uchel i gydbwysu'r angen am ymyrraeth uniongyrchol ac wedi'i dargedu, ac mae gweithio gyda theuluoedd ar nodau tymor hir yn ceisio datblygu sgiliau datrys problemau, gwella gwytnwch a chyflawni newid ymddygiad cadarnhaol a chynaliadwy.

Mae'r tîm yn gweithio ochr yn ochr â thimau ac asiantaethau eraill fel y Tîm o Amgylch y Teulu, y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau, Tai, gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, ac eraill, i sicrhau bod ymyrraethau mor effeithiol â phosibl.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Safon Ansawdd 2 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol

Rhaglen Codymau Conwy

Codymau yw'r achos mwyaf cyffredin o anaf difrifol mewn pobl hŷn, a'r rheswm mwyaf cyffredin o orfod mynd i'r ysbyty. Mae Arolwg Llywodraeth Cymru yn dangos bod ofn syrthio yn ffactor arwyddocaol wrth leihau gweithgarwch corfforol a chyfranogiad mewn cymdeithas ymysg oedolion. Rydym yn teimlo nad oes rhaid i godymau fod yn rhan anorfod o fynd yn hŷn, ac mae'r tîm Atal Codymau'n gweithio gyda phobl dros 65 oed i helpu i leihau eu perygl o lithro, baglu a chael codwm.

Mae'r tîm yn cynnwys pedwar swyddog arbenigol, wedi'u lleoli yn adain Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth (IAA) Conwy gyda thimau perthnasol eraill. Maent yn sgrinio'r holl atgyfeiriadau newydd, cynnal asesiadau yn y cartref, nodi ffactorau risg yr unigolyn a gwneud argymhellion. Gall hyn gynnwys cyfeirio at asiantaethau/gwasanaethau priodol, gan roi cyngor ar beryglon yn y cartref neu awgrymu ymarferion i wella gwytnwch.

Mae'r tîm yn gweithio gyda phartneriaid yn lechyd, y Gwasanaeth Tân ac asiantaethau gwirfoddol i wella ymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth yn y gymuned. Hyd at ddiwedd 2017, roedd 25% o gartrefi gofal wedi cael hyfforddiant ar y pecyn asesiadau risg codymau, ac mae'r holl fferyllfeydd yng Nghonwy wedi cael taflenni, a sefydlwyd cysylltiadau gwerthfawr gydag elusennau a grwpiau cefnogi.

Rydym yn gweithio yn agos gyda'n cydweithwyr iechyd i sicrhau rhyddhau yn gyflym o'r ysbyty. Y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal – pobl yn methu gadael yr ysbyty gan nad oes cefnogaeth iddynt gartref – yw 0.3% - am bob 1000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn.

Astudiaeth achos

Atgyfeiriwyd dynes at y gwasanaeth codymau ar ôl cael codwm a bod yn agos at gael codwm sawl gwaith. Roedd risg y byddai hefyd yn datgymalu aelodau wrth wneud rhai symudiadau. Roedd ei symudedd wedi lleihau yn sylweddol ac roedd mewn perygl o ddiodef codymau pellach.

Trafododd y Swyddog Codymau ei sefyllfa yn drylwyr gyda hi a chytunwyd y byddai atgyfeiriad i ddosbarthiadau PSI (Hyfforddiant Sadrwydd Osgo) yn fanteisiol. Yn ystod yr adolygiad ffôn rhai wythnosau yn ddiweddarach, rhoddodd y ddynes wybod iddi ei bod yn mwynhau'r dosbarthiadau yn fawr a dywedodd bod awyrgylch dda yn y grŵp, ac ychwanegodd bod y sesiynau wedi tynnu sylw at gryfder a gwendidau sicr yn ei haelodau/cyhyrau. Mynegodd ddiddordeb mewn sesiynau nofio am ddim hefyd er mwyn ymarfer ei hymarferion hydrotherapi ar gyfer ei chlun dde. Mewn gwirionedd, mae ei hiechyd cyffredinol wedi gwella cymaint nes ei bod yn ystyried gwyliau gyda'i phartner sy'n rhywbeth nad oedd hi wedi gallu ei wneud ers sawl blwyddyn. Dywedodd hefyd ei bod yn argymhell y gwasanaeth i'w ffrindiau sydd wedi cael codwm, gan roi rhif y SPOA iddynt fel y gallant ofyn am asesiad gan y tîm.



Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Canolfannau Teuluoedd Conwy

Rydym yn datblygu Canolfannau Teuluoedd ledled Conwy, i ddarparu cefnogaeth gymunedol a hygyrch, sydd ar gael yn gynharach i deuluoedd, ac yn agored i bob teulu. Mae gennym eisoes Ganolfan Deuluoedd yn Llanrwst sy'n gwasanaethu'r gymuned wledig. Yn seiliedig ar brofiadau'r ganolfan hon, ac ymchwil gyda theuluoedd a darparwyr gwasanaeth, rydym wedi datblygu'r model hwn i'w ledaenu ledled y sir, gyda chyfanswm o bump o Ganolfannau Teuluoedd.

Bydd gan bob Canolfan Deuluoedd dîm craidd o Weithwyr Cefnogi Teuluoedd a fydd yn dod i adnabod y cymunedau lleol a chreu perthynas gyda phobl a grwpiau eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd yn yr ardal. Bydd gwasanaethau eraill yn cael eu darparu o'r Canolfannau Teuluoedd, fel cwnsela teuluoedd a chamdriniaeth ddomestig, gan wneud yn siŵr bod teuluoedd yn cael y gefnogaeth y maent ei hangen yn gynharach. Byddwn yn cydweithio i wneud yn siŵr ein bod yn cefnogi'r teulu cyfan yn effeithiol. Byddwn yn defnyddio gwirfoddolwyr ac yn rhoi cyfle i gymunedau gymryd rhan. Bydd y Canolfannau Teuluoedd yn cynnal gweithgareddau ac yn darparu bob math o bethau i ddiwallu anghenion y cymunedau. Er enghraifft:

- Cefnogaeth, gwybodaeth a chynghor ar gyfer teuluoedd o bob oed
- Dosbarthiadau a grwpiau rhianta
- Sesiynau babanod a phlant bach
- Cefnogaeth i bobl ifanc
- Sesiynau coginio a bwyta
- Chwarae
- Galw heibio



Rhan bwysig o'r prosiect yw ymgysylltiad ac ymglymiad cymunedol. Bydd Grŵp Cynghori Rhieni yn cyfarfod yn fisol i gymryd rhan yn natblygiad y prosiect. Rydym hefyd wedi ymgynghori â theuluoedd, plant a phobl ifanc yn yr ardaloedd lle rydym yn datblygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall ac ymateb i'r hyn y mae teuluoedd ei angen ym mhob cymuned.

Hyd yma

Dwyrain y sir yw'r ardal gyntaf i weld datblygiad Canolfan Deuluoedd newydd. Rydym yn ailwampio adain adeilad y drws nesaf i Ysgol Sefydledig Emrys Ap Iwan, a bydd hwn yn agor yn ystod haf 2018. Rydym wedi bod yn cynnal rhai gweithgareddau yn yr ardal Ddwyreiniol i'n helpu i ddysgu beth sy'n gweithio yn dda a beth y mae teuluoedd ei angen yn yr ardal Ddwyreiniol. Rydym wedi creu [fideo](#) i ddweud wrth bobl amdano.

Rydym wedi cael adborth gwych!

“Pan ddes i yma gyntaf, nid oeddwn yn teimlo fy mod yn diwallu anghenion y bechgyn o gwbl, roeddwn yn teimlo fel y rhiant mwyaf diwerth ar y blaned..... rydym yn sicr wedi gwneud cynnydd ac roedd pethau yn bositif iawn.”

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

“Cyn gynted ag y cysylltodd y [Tîm o Amgylch y Teulu] â fi, roeddwn yn teimlo bod rhywun sy'n gwirioneddol wrando ar fy anghenion, ac oherwydd eu bod mor gymhleth, cymaint ohonynt. Roedd yn anhygoel oherwydd roedd cymaint o bobl wedi dweud “o, dydyn ni ddim yn ymdrin â hynny”, ond....mae rhywun yno sy'n gwybod ac sy'n gallu ei wneud i chi hefyd.”

“Oherwydd gall roi cyfle i rieni anhapus ddod â theuluoedd ynghyd etomae'n cysylltu teuluoedd.”

Bachgen blwyddyn 10

Beth nesaf?

Byddwn yn edrych ar y Ganolfan Deuluoedd yn yr ardal ganolog (Bae Colwyn a'r cymunedau cyfagos). Rydym yn ystyried lleoliadau posibl ar hyn o bryd, ac rydym yn ymgynghori gyda theuluoedd. Byddwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect arbrofol yn Abergele ac yn gweithio i weithredu'r rhain yn y ganolfan pan fydd ar agor, ac ystyried y negeseuon yn ein datblygiadau pellach.

Pa mor dda ydym ni'n cefnogi ein plant?

Canran y plant sydd yn gweld deintydd cofrestredig o fewn tri mis ar ôl derbyn gofal ydi 78% (PMC30)

Roedd 100% o blant dan ofal yn cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau eu lleoliad (ar 31 Mawrth, PMC31)

Gweithio i wella lechyd Meddwl

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n cydweithwyr iechyd drwy gyfres o gyfarfodydd i greu model cefnogi lechyd Meddwl Integredig ar gyfer Plant Dan Ofal. Rydym hefyd yn symleiddio model Gofal Parhaus Amlasiantaeth i gefnogi'r broses Panel Amlasiantaeth Strategol. Bydd hyn yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o anghenion plant a chynllunio yn fwy effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny. Y nod yw darparu ymyrraeth gynnar i atal problemau rhag gwaethygu, cefnogaeth wedi'i dargedu yn well ar gyfer Gofalwyr Maeth a Mabwysiadwyr a gwell sefydlogrwydd mewn lleoliadau. Bydd hwn yn cael ei lansio ddiwedd Mehefin. Y flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd canfod pa mor effeithiol yw'r model.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr iechyd i ddatblygu hyfforddiant penodol ynglŷn â hunan-niwed i ofalwyr maeth, i'w helpu i gefnogi'r plant yn eu gofal a chynnal y lleoliadau hyn. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn yr haf.



Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Mae'r Gwasanaeth Cymunedol Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn ceisio rheoli 'drws ffrynt' y gwasanaethau iechyd meddwl yn wahanol iawn a chynnig dewis arall sy'n gadarn, yn effeithiol ac yn seiliedig ar dystiolaeth at 'fodel meddygol' Gofal Eilaidd h.y. gweithio gyda phobl â phroblemau iechyd meddwl a/neu sy'n dioddef tralod oherwydd argyfwng cymdeithasol er mwyn meithrin a chynnal eu gwytnwch personol a'u lles meddyliol, cymdeithasol a seicolegol. Bydd Gweithwyr Cymdeithasol yn gweithio yn hyblyg a chreadigol i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth; i fynd i'r afael ag achosion argyfwng a cholli lles meddyliol, e.e. tai, llesiant, cynhwysiant ariannol, arwahanrwydd cymdeithasol, cyflogaeth. Byddant yn cynnal y broses Asesiad Integredig, gan gynnig gwybodaeth, cyngor a/neu gefnogaeth yn unol â'r canlyniadau dymunol a nodwyd o sgwrs 'Beth sy'n Bwysig'. Bydd unrhyw un sydd wedi'i nodi fel rhywun sydd angen gwasanaeth meddygol ac asesiad dan y Mesur Iechyd Meddwl yn cael eu cyfeirio at y Tîm Iechyd Meddwl. Ond, gan y bydd y nifer achosion sy'n cael eu pasio i'r CMHT yn is, bydd gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol yn cael ei ddarparu ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth hynny sydd angen ymyrraeth meddygol arbenigol.

Dysgu ar gyfer Adferiad

Mae'r [llyfryn](#) 'Dysgu ar gyfer Adferiad a Lles' wedi'i anelu yn benodol at bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl neu sy'n gofalu am rywun sydd. Bydd yn cael ei gynhyrchu yn chwarterol a bydd ar gael fel llyfryn wedi'i argraffu ac ar-lein. Cafodd ei roi at ei gilydd gan grŵp Partneriaeth Pobl Conwy ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol, ac mae wedi bod yn gydwethrediad rhwng sefydliadau statudol a thrydydd sector.

Mae themâu i'r cyrsiau fel y gall bobl ddod o hyd i sesiynau sy'n berthnasol iddyn nhw, dim ots a ydynt yn dechrau deall eu problemau iechyd meddwl, eisiau meithrin sgiliau bywyd, eisiau dod o hyd i ffyrdd o fod yn weithgar yn gymdeithasol, neu eisiau dod o hyd i waith neu gyfleoedd gwirfoddoli.




Cefnogi pobl i fyw yn dda gyda dementia

Bydd y Map Dementia a ddatblygwyd gan weithwyr proffesiynol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a thrydydd sector (gweler isod) yn cael ei ddefnyddio i hwyluso sgysiau gyda phobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia, a'u gofalu. Y nod yw y bydd y map yn cefnogi pobl i ddeall eu taith dementia a'u helpu i gynllunio ar gyfer yr hyn sydd o'u blaen wrth i'w taith fynd rhagddo. Mae gwasanaethau i bobl â diagnosis o ddementia cynnar mewn bywyd wedi'i nodi gan y grŵp fel bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth cyfredol, a hwn fydd ffocws y grŵp ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae trafodaethau gyda chydweithwyr iechyd hefyd wedi cychwyn mewn perthynas â'r posibilrwydd o gyd-gomisiynu darpariaeth seibiant mewn cyfleuster nyrsio, gan fod darparu gofal seibiant hefyd yn fwch a gydnabyddir mewn darpariaeth gwasanaeth cyfredol. Byddwn yn gweithio gyda BIPBC a'r trydydd sector ar gynigion newydd arloesol a fydd yn gysylltiedig â'r rhaglen atal, gyda'r nod o ddarparu cefnogaeth effeithiol i bobl â dementia a'u teuluoedd/gofaluwr gynnal eu hannibyniaeth, a lleihau'r tebygolrwydd o orfod cael mynediad i'r ysbyty a gohirio'r angen am ofal preswyl neu nyrsio. Bydd hyn hefyd yn lliniaru'r pwysau ar y darparwyr sector annibynnol. Rhagwelir y bydd unrhyw gynigion gwasanaeth newydd yn ein cefnogi ni i ddarparu'r camau gweithredu blaenoriaeth a nodwyd yng [Nghynllun Gweithredu Dementia Cymru 2018-2022](#).

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Y Map Dementia



Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Safon Ansawdd 3 - Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Beth mae ein Harolwg Dinasyddion wedi'i ddweud wrthym

Pobl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel

Mae 79% o ofalwyr, 90% o blant a 77% o oedolion yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu godwm y tu mewn neu'r tu allan i'w cartref. Mae llawer o'r sylwadau cefnogi gan ofalwyr ac oedolion yn cyfeirio at ofn cael codwm oherwydd cartref anaddas, salwch, oedran neu oherwydd eu bod eisoes wedi cael codwm.

"Ofn syrthio y tu allan i'm cartref."

"Rwy'n baglu yn aml ac rwyf ofn y gallaf frifo fy hun trwy syrthio eto."

Pa mor dda ydym ni'n gwneud?

- Rydym yn dal i weithio ar gynnwys ein harferion mewn perthynas ag ymholiadau diogelu oedolion, a chadw llygad ar ein perfformiad (PMA18)
- Roedd 11% o'r plant ar y Gofrestr Diogelu Plant wedi'u hailgofrestru (PMC27)
- Roedd plant ar y Gofrestr Diogelu Plant am gyfartaledd o 216 diwrnod (PMC28)

Sut mae Conwy yn cefnogi blaenoriaethau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

1. Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)

Mae Conwy wedi buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol i wella ymwybyddiaeth a sicrhau cyfathrebu ar draws asiantaethau yn y 12 mis diwethaf. Mae'r Fforwm Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cael ei arwain gan ofal cymdeithasol, ac yn parhau i gael ei gynnal yn rheolaidd gyda chyfraniad amlasiantaeth a chynghorau eraill. Mae Conwy hefyd yn gweithio yn agos gyda Heddlu Gogledd Cymru, yn enwedig PC/PCSO gan mai dyma'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymdrin â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant o ddydd i ddydd.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd gweithdy amlasiantaeth i helpu i wella ymwybyddiaeth ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Roedd y prynhawn yn cynnwys cynhyrchiad drama 'Mirror Mirror' gan Collingwood Learning Solutions Ltd, cynhyrchiad a ddangoswyd mewn ysgolion uwchradd yng Ngogledd Cymru i wella ymwybyddiaeth ar gyfer pobl ifanc. Cafodd hyn ei ddilyn gan gyflwyniad fideo gan Ms. Gladman, a oedd ynghlwm â

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

datgelu'r hyn a ddigwyddodd yn Rotherham. Roedd cyfle hefyd i rwydweithio a thrafod beth mwy y gellir ei wneud i helpu i leihau risgiau o'r fath yng Nghonwy. Roedd presenoldeb yn cynnwys dros 100 o gynrychiolwyr o aelodau'r Cyngor, adrannau'r Awdurdod Lleol, Arweinwyr Diogelu, Penaethiaid Ysgolion Cynradd, Unedau Atgyfeirio Disgyblion, Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a'r rhai o'r sector preifat neu'r trydydd sector.

Mae'r Tîm Ymyriadau Teuluol [FIT] wedi datblygu rhaglen waith grŵp Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a elwir yn “**Rhaglen Arfogaeth**”.

Mae'r rhaglen yn cynnwys perthnasau iach, iechyd rhywiol, meithrin a chamelwa rhywiol, seiberdroseddu/cyfryngau cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, datgelu a gwaith 'cadw'n ddiogel', ac mae pwynt cyswllt gydag Addysg, Iechyd, heddlu lleol a gwasanaethau ieuenctid os oes angen cefnogaeth ar ôl y rhaglen.

Cafodd Conwy eu cynrychioli mewn Cynhadledd cenedlaethol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Llundain, ac maent wedi ychwanegu CSE i'r Llwybr Dysgu Gofalwyr Maeth.

Blaenoriaeth Allweddol: I'r dyfodol, cynhelir Setiau Dysgu bob chwech i wyth wythnos ar gyfer achosion Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant i staff mewnol a gweithwyr proffesiynol allanol sydd ynghlwm. Byddwn hefyd yn gweithredu'r cynllun gweithredu rhanbarthol, ac ychwanegu at y canllawiau statudol, trwy Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraeth Cymru.

2. Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

Darparodd Conwy gwrs Ymddygiad Rhywiol Niweidiol ar gyfer Gofalwyr Maeth, Gweithwyr Cymdeithasol a Staff Cefnogi ac mae wedi comisiynu G Map i ddarparu hyfforddiant arbenigol i Weithwyr Cymdeithasol ar y model asesu 'Nod 2'. Mae hwn yn faes lle rydym wedi nodi'r angen am wybodaeth ac arbenigedd penodol. Rydym hefyd yn cyfrannu at archwiliad ymddygiad rhywiol yr NSPCC.

3. Ymateb Rhanbarthol Strategol Ymddygiad Cymryd Risgiau

Arweiniodd Conwy wrth ddatblygu'r ymateb strategol i blant a phobl ifanc sydd ynghlwm â'r ymddygiad cymryd risgiau mwyaf cyffredin, fel camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ymddygiad rhywiol niweidiol, mynd ar goll, agored i gael eu radialeiddio/eithafiaeth ayyb. Mae'r polisi yn cynnig agwedd holistaidd at ddiogelu'r plant mwyaf diamddiffyn neu mewn perygl, i liniaru'r gofynion cynyddol ar adnoddau rheng flaen yn y sector cyhoeddus a thrydydd sector.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

4. Cam-drin domestig

Mae Conwy yn cyfrannu at y Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) sy'n cefnogi diogelu plant trwy ddatblygu cynlluniau gweithredu effeithiol, rhannu gwybodaeth yn amserol ac asesu risgiau i blant. Bydd effaith camdriniaeth domestig ar blant yn lleihau oherwydd y gallant hwy, eu teuluoedd a throseddwrwyr gael mynediad at ystod ddigonol o wasanaethau lleol wedi'u comisiynu.

Mae modiwl dysgu ar-lein, Trais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Chamdriniaeth Rhywiol (VAWDASA), wedi'i gyflwyno i holl staff y Cyngor ac mae'n ddysg gorfodol ar gyfer staff newydd a phresennol yn yr Awdurdod Lleol. Yn rhanbarthol, mae Conwy yn cyfrannu at ddatblygu cwrs 'Gofyn a Gweithredu' VAWDASA Lefel 2.

5. Addysg yn y Cartref

Mae Conwy wedi sefydlu arferion mewn perthynas ag Addysg yn y Cartref. Bob tymor ysgol, mae Conwy yn cynnal Panel Addysg Cartref sy'n amlasiantaeth. Mae'r Panel yn adolygu unrhyw deuluoedd sydd ddim wedi rhoi tystiolaeth o'r gwaith a gwblhawyd gartref o fewn y cyfnod amser o ddeuddeg mis ac yn ystyried a oes unrhyw bryderon diogelu. Os oes pryderon diogelu, bydd gofal cymdeithasol yn gwneud ymholiadau priodol.

Rydym yn aros am ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Adroddiad Cascade – adolygiad seiliedig ar dystiolaeth o'r risgiau i blant a phobl ifanc sy'n cael addysg yn y cartref a'r argymhellion sydd wedi'u cyflwyno.

6. Codi Ymwybyddiaeth

Bu ymdrech i sicrhau bod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb yng Nghonwy. Mae nifer o gamau gweithredu wedi'u cymryd, gan gynnwys hyfforddiant staff ac Aelodau Etholedig, y 3ydd Sector a'r Gweithlu Gofal Uniongyrchol, a gwella arferion rheoli, sicrwydd ansawdd a rhoi gwybod.

Blaenoriaeth allweddol wrth symud ymlaen yw parhau ar y llwybr gwelliant.

7. Mae canlyniadau ar gyfer oedolion sy'n destun cynlluniau amddiffyn oedolion wedi gwella o ganlyniad i'r holl asiantaethau ar draws Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau amddiffyn oedolion o ansawdd yn gyson yn unol â'r arfer gorau a gytunwyd.

Trwy wella proffil diogelu oedolion a gwella gwaith amlasiantaeth, mae'r nifer cynlluniau diogelu ar gyfer diogelu oedolion wedi codi o 76 yn 2016/17 i 114 yn 2017/18. Mae agwedd fwy cyson a dealltwriaeth gyffredin at ddiogelu oedolion trwy ymwybyddiaeth a darpariaeth hyfforddiant.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

8. Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC) yn sicr o ansawdd gwasanaethau diogelu ar draws Gogledd Cymru

Bydd achosion diogelu yn cael eu harchwilio a bydd canlyniad yr archwiliadau yn cael eu rhannu gyda BDGC

9. Mae'r risg y bydd oedolion diamddiffyn yn dioddef neu'n destun camdriniaeth neu esgeulustod yn cael ei leihau ac mae'r cyhoedd yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu ac amddiffyn, ac yn gwybod beth i'w wneud os oes mater diogelu.

Rydym yn darparu sesiynau hyfforddiant i staff, yn cynnal sesiynau goruchwyllo un i un, yn annog trafodaethau cyfoedion, ac yn cefnogi mynd at reolwyr atebol a'r arweinydd diogelu yn syth os bydd unrhyw bryderon diogelu yn codi yn ein grwpiau staff.

Rydym yn atgoffa **holl** staff Conwy bod "diogelu yn fusnes i bawb" a bod rheolwyr ymroddedig ar gyfer diogelu ym mhob maes gwasanaeth yn y cyngor. Mae'r rhain yn cael eu harddangos ar ein mewnrwyd.

Mae ein [gwefan](#) yn rhoi cyfle i'r cyhoedd roi gwybod am bryderon diogelu ar gyfer oedolion a phlant trwy ein hadran 'Rwy'n pryderu am rywun'.

10. Datblygu ymagwedd amlasiantaeth Gogledd Cymru i ddeall digwyddiadau o hunan-esgeuluso ac anghenion y rhai yr effeithir arnynt

Mae ein Polisi Hunan Esgeuluso wedi'i ddyfeisio a'i weithredu ymysg timau staff a'i fabwysiadu fel y weithdrefn ranbarthol. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth ynghlwm â darparu'r hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar draws y rhanbarth.

Mae hefyd wedi'i gyflwyno am wobwr Acolâd.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Safon Ansawdd 4 - Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas

Beth mae ein Harolwg Dinasyddion wedi'i ddweud wrthym

Pobl yn dweud y gallant wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt

Rhoddodd 44% o ofalwyr a 54% o oedolion wybod y gallant wneud y pethau sydd yn bwysig iddynt. Mae sylwadau cefnogol gan ofalwyr yn benodol yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar yr effaith y bydd cyfrifoldebau gofalu yn ei gael ar ryddid gofalwyr i fwynhau'r hobiau a'r gweithgareddau y maent yn eu hoffi. Mae gan lawer gyfleoedd cyfyngedig i ymgymryd â'u diddordebau ac mae'n rhaid iddynt gydbwysu eu hanghenion eu hunain gydag anghenion y person y maent yn gofalu amdano. Ar gyfer y grŵp oedolion mae cyfyngiadau oherwydd salwch, anabledd a dibyniaeth ar eraill ar gyfer cludiant. Mae nifer yn profi rhwystredigaeth gyda'r hyn a oedd yn arfer bod yn dasgau syml iddynt.

"Rwyf weithiau yn ei chael yn anodd gwneud fy ngwaith tŷ a thasgau syml – agor tuniau, codi, plygu."

"Ni allaf arddio na glanhau fy nhŷ bellach, - mae hyn yn rhwystredig iawn."

Pobl yn dweud eu bod yn fodlon gyda'u rhwydweithiau cymdeithasol

Rhoddodd 66% o ofalwyr, 85% o blant a 82% o oedolion wybod eu bod yn teimlo'n hapus gyda'r gefnogaeth y maent yn ei chael gan eu teulu, ffrindiau a chymdogion, ond bod nifer yn teimlo wedi'u hynysu oddi wrth eu teulu sy'n byw ymhell i fwrdd a ddim yn gallu darparu cefnogaeth ymarferol. O ganlyniad, mae rhai yn dibynnu ar gyfeillgarwch cymdogion neu wasanaethau gofalwyr cyflogedig. Mae'r rhai sydd â theulu yn yr ardal yn aml yn teimlo eu bod yn fwrn ar blant sy'n oedolion ac sydd â bywydau prysur a'u cyfrifoldebau eu hunain.

"Mae ein genethod yn ein helpu pan mae'n bosibl ond mae ganddynt eu bywydau eu hunain ac nid ydynt bob amser yn gallu helpu. Maent yn ceisio ein cefnogi."

"Does gen i ddim teulu na ffrindiau yng Ngogledd Cymru; Rwy'n dibynnu ar fy ngofalwr a'r wardeiniaid am gefnogaeth."

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Pa mor dda ydym ni'n gwneud?

Rydym yn gwella – cyflawnodd 56% o blant a oedd dan ofal, yn cael eu hystyried yn blant mewn angen neu ar y gofrestr diogelu plant y dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 (PMC29a). Mae hyn yn welliant ar y llynedd, ac mae'n debyg i gyfartaledd Cymru. Yng Nghyfnod Allweddol 4, cyflawnodd 12% o blant y dangosydd pwnc craidd (PMC29b), sydd eto yn welliant ar y llynedd, ac rydym bron â chyrraedd cyfartaledd Cymru. Hoffem wneud hyd yn oed yn well.

Dim ond 1% o blant dan ofal oedd wedi gorfod symud ysgol unwaith neu fwy, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o fod dan ofal, oedd ddim o ganlyniad i drefniadau pontio - fel mynd i'r ysgol uwchradd - yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth (PMC32). Eto, mae hyn yn welliant, ac rydym yn gwneud yn well na chyfartaledd Cymru.

Agwedd Cynnydd

Mae'r Tîm Teleofal yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y gwasanaethau i nodi technolegau sy'n galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol am cyn hired ag y gallant. Er enghraifft, yn y Gwasanaethau Anabledd, rydym wedi bod yn adolygu ein pecynnau gofal 24/7 a nodi cyfleoedd i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau i fod yn fwy annibynnol, fel cymryd risgiau cadarnhaol trwy ddefnyddio Systemau Teleofal i sefydlu angen gwirioneddol.

Gan ddefnyddio'r System Teleofal i fonitro gweithgareddau gyda'r nos, mae defnyddwyr gwasanaeth wedi cael hyder ac wedi sylweddoli nad ydynt angen i aelod staff fod ar gael yn y nos. O ganlyniad, mae dau ddefnyddiwr gwasanaeth wedi symud i'w fflat eu hunain gyda llawer llai o gefnogaeth. Yn ogystal, mae'r oriau yn ystod y dydd a ddefnyddiwyd i gefnogi tri o bobl rŵan yn cefnogi saith o bobl, a phob un ohonynt wedi profi canlyniadau llesiant cadarnhaol drwy'r ymarfer hwn.

Cymorth i Blant ag Anableddau

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Tîm Anableddau Integredig wedi'i sefydlu ac o ganlyniad mae ein staff cefnogaeth sesiynol mewnol rŵan wedi'u cofrestru i ddarparu gofal personol i blant. Mae gan y Gwasanaeth Anabledd hefyd ystod o glybiau a gweithgareddau sy'n cael eu defnyddio gan blant sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

Dyma rai enghreifftiau o'r gweithgareddau a gynigiwyd:

- **Snapdragons (5-11oed)**

Cynhelir yn wythnosol am 2 awr mewn amryw o leoliadau ledled y sir; rhaglen strwythuredig o chwarae a datblygu sgiliau byw'n annibynnol.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

- **Clwb 13+**
Cynhelir bob yn ail dydd Sadwrn am gyfnod o 3 awr yng Nghanolfan Riviere. Cynhelir amryw o weithgareddau, er enghraifft, nofio, bowlio deg ayyb.
- **Grŵp Pontio (17-19 oed)**
Mae hwn yn grŵp 3 awr sy'n cael ei gynnal bob yn ail dydd Gwener. Sefydlwyd y grŵp hwn i roi'r sgiliau angenrheidiol i bobl ifanc i'w paratoi ar gyfer bod yn oedolyn, er enghraifft, paratoi bwyd, cynllunio teithiau, siopa bwyd.
- **Gwersyll Plant (5-14 oed)**
Hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos yn ystod gwyliau'r ysgol. Bydd Gofal Cymdeithasol yn darparu cefnogaeth un i un os oes angen.
- **Clwb Gwyliau Diwrnod Allan (13-19 oed)**
Mae'r clwb yn cynnig diwrnod llawn unwaith yr wythnos yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae gweithgareddau a theithiau yn cael eu cynnwys, gan fynd â phlant a phobl ifanc allan i'r gymuned leol ac ymhellach.
- **Sgiliau Byw'n Annibynnol**
Cynhelir tri grŵp yn ystod gwyliau'r ysgol i blant yn y grŵp oedran 5-8 oed, rhai sy'n 9-12 oed a phlant a phobl ifanc 13+ oed. Cynhelir y sesiynau dwy awr yng Nghanolfan Gymunedol Tan Lan ac maent yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau unigolion fel coginio, iechyd a diogelwch a hylendid bwyd.

Mae gweithgareddau seibiant yn gwneud gwahaniaeth go iawn i blant a phobl ifanc ag anabledau fel y dengys y sylwadau a ganlyn gan weithwyr cymdeithasol:

“Mae'r gwasanaeth yn Llys Gogarth wedi helpu 'C' i ddod yn fwy annibynnol wrth fod i ffwrdd o'i deulu ac mae wedi rhoi cyfle i'w rieni ymlacio ac ymweld â llefydd nad yw wedi bod yn bosibl iddynt ymweld â nhw.”

“Mae 'B' yn mynd ar y cwrs Sgiliau Byw Annibynnol oedran hŷn ac yn mwynhau dysgu sgiliau newydd mewn amgylchedd cymdeithasol.”

“Mae 'A' yn mynd i'r clwb Diwrnod Allan ac yn edrych ymlaen ato. Mae'n rhoi gweithgaredd cymdeithasol iddi gyda phobl o'i hoedran a'i gallu hi ei hun, ac mae hefyd yn rhoi seibiant i mam yn y gwyliau.”

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Cymorth i Deuluoedd

Mae timau Dechrau'n Deg, Tîm o Amgylch y Teulu a Theuluoedd Gwledig yn Gyntaf wedi bod yn cydweithio i roi cefnogaeth i deuluoedd yn eu cymunedau eu hunain.

Maent yn cynnal sesiynau ymgysylltu, dysgu a gwybodaeth, fel cyrsiau rhianta, aros a chwarae, paned a sgwrs, chwarae egniol, cyrsiau cyn geni, grwpiau cefnogi bwydo ar y fron, a sesiynau cerdded â phramiau mewn amryw o leoliadau cymunedol ledled y sir ar gyfer rhieni. Nid yw nifer o'r bobl rydym yn eu cyfarfod yn cael mynediad i wasanaethau traddodiadol, neu maent eu hofn.

Mae'r timau yn credu bod *"bob un ohonom angen cymorth ar ryw adeg yn ein bywydau, dim ots a yw'n wybodaeth i'n helpu ein hunain, neu gefnogaeth"*. Mae ein Gweithwyr Cefnogi Teuluoedd wedi cefnogi dros 1,000 o deuluoedd yn uniongyrchol eleni. Mae'r gefnogaeth wedi ymdrin ag ystod eang o faterion, er enghraifft: rhianta, anabledd, camddefnyddio sylweddau, tai, trais domestig, pryderon ariannol, cyngor ar fudd-daliadau, rhieni yn gwahanu, ac iechyd meddwl gwael. Gall fod wedi bod ar sail un i un i helpu i oresgyn cyfnod o anhawster, neu efallai ein bod wedi trefnu cyfarfodydd amlasiantaeth ar ran teuluoedd i hwyluso gweithio ar y cyd gyda'r teulu i greu cynllun sengl.

Astudiaeth achos

Roedd 'B' yn 19 ac roedd ganddo blentyn yn byw gyda'i gyn bartner; roedd y ddau yn cael trafferth ac roedd y gwasanaethau plant statudol ynghlwm.

Roedd 'B' yn byw mewn eiddo gorlawn gyda'i dad, llysfam a dau sibling ieuengach, gan achosi tensiynau.

Roedd 'B' yn gwneud prentisiaeth mewn plymio a cafodd ei ferch ifanc fyw gydag o llawn amser. Roedd 'B' mewn perygl o golli ei swydd, ac nid oedd yn gallu ymdopi ar gyflog prentis.

Gwnaethom gefnogi 'B' gydag atgyfeiriad at Hawliau Lles, rhoi cymorth ymarferol gyda chyllidebu, helpu i ddod o hyd i lety addas, cael blaendal ar gyfer fflat gan NACRO a Datrysiadau Tai Conwy, cael cyllid am nwyddau gwyn a dodrefn, rhoi cefnogaeth emosiynol a chymorth ymarferol gyda rhianta plentyn bychan ac atgyfeiriad i'r Gronfa Wyliau.

Y canlyniad ar gyfer 'B' o'r gwaith hwn yw bod 'B' mewn fflat newydd gyda'i ferch. Nid yw'r gwasanaethau plant statudol ynghlwm bellach, mae budd-daliadau wedi'u cywiro, mae gwyliau wedi'i archebu i roi amser i deulu 'B' fondio, mae gofal plant wedi'i drefnu ac mae 'B' yn gallu cyllidebu a pharhau â'r brentisiaeth.

"Rwy'n hapusach, yn rheoli fy mywyd yn well ac yn mwynhau bod yn dad."

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Safon Ansawdd 5 - Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol diogel

Beth mae ein Harolwg Dinasyddion wedi'i ddweud wrthym

Pobl yn dweud eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned

Mae 50% o ofalwyr, 83% o blant a 54% o oedolion yn teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned gyda nifer yn teimlo eu bod yn methu allan ar weithgareddau cymdeithasol a digwyddiadau oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu gartref, diffyg symudedd neu salwch. Mae llawer o sylwadau yn awgrymu bod pobl yn teimlo yn unig ac â chyswllt cyfyngedig ag eraill, hyd yn oed pan maent yn byw yn agos at gymdogion.

“Rwy'n methu allan ar nifer o bethau yn y gymuned a byddwn yn cymdeithasu llawer mwy pe bawn i ddim yn ofalwr.”

“Rydym yn teimlo'n unig er ein bod yn byw mewn llety â warden.”

Gofalwyr yn dweud eu bod yn teimlo eu bod cael eu cefnogi i barhau â'u rôl gofalu

Cytunodd 70% o ymatebwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth a nododd 16% arall bod hyn yn wir weithiau. Eto, mae'r sylwadau ychwanegol yn tynnu sylw at y gwerth a roddir ar gymorth effeithiol gan y rhai sy'n darparu gofal di dâl yn ein cymunedau.

“Rŵan bod gen i'r gefnogaeth rwyf ei hangen, rwy'n teimlo yn llai ynysig ac yn hapus iawn i barhau â'm swyddogaeth fel gofalwr llawn amser.”

Gofalwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n rhan o gynllunio'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdanynt

Roedd 85% o ofalwyr yn cytuno gyda'r datganiad hwn, ond nid oedd rhai yn teimlo bod y profiad wedi bod yn un cadarnhaol bob tro. Mae newidiadau mewn gweithwyr allweddol, a'r farn am pa mor ystyriol ydym fel adran yn ddau ffactor a all effeithio ar sut y mae gofalwyr yn teimlo.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

“Mae'r person sy'n penderfynu pa gefnogaeth fydd fy ngwraig yn ei gael wedi newid bob blwyddyn felly mae hi'n teimlo fel ystadegyn.”

“Rwyf wedi derbyn ymgynghoriad ar bob mater. Hapus iawn.”

Pa mor dda ydym ni'n gwneud?

Gwnaethom helpu 71% o'r plant y gwnaethom eu cefnogi i aros gartref gyda'u teulu (PMC25), sydd ychydig yn well na chyfartaledd Cymru. Dychwelodd 8% o blant dan ofal gartref o ofal yn ystod y flwyddyn, sy'n well na'r llynedd (PMC26). Cafodd 8% o blant dan ofal (ar 31 Mawrth) 3 neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn – mae hyn yn gwella ac yn well na chyfartaledd Cymru (PMC33).

Prosiect Gwasanaethau Cefnogi Uwch ar gyfer Plant Dan Ofal

Mae profi Profiadau Niweidiol mewn Plentynod cyn bod Dan Ofal yn cael effaith sylweddol ar ddatblygiad plentyn neu berson ifanc, yn gofyn am ofal a chefnogaeth arbenigol i leihau'r ymyriadau a'r risg y bydd lleoliad yn methu.

Mae'r *Gwasanaeth Cefnogi Uwch ar gyfer Plant Dan Ofal* wedi'i gynllunio i ddarparu gofal diogel i blentyn neu berson ifanc mewn amgylchedd mwy strwythuredig na lleoliad maeth neu deulu 'arferol'. Mae'n darparu gwell canlyniadau ac yn ddewis cost effeithiol yn hytrach na gofal preswyl, sydd bob amser yn 'ddewis olaf'. Bydd y gwasanaeth yn darparu:

- Cefnogaeth i blant gamu i lawr o leoliadau preswyl i leoliadau gofal maeth, neu ailsefydlu gartref gyda'u teulu gyda chefnogaeth uwch.
- Gwell cefnogaeth ar gyfer gofalywyr maeth mewnol presennol, lleoliadau gyda rhieni, personau cysylltiedig a phobl eraill arwyddocaol sy'n gofalu am blant gydag anghenion cymhleth.
- Agwedd gefnogol, therapiwtig sy'n sicrhau bod lleoliadau yn aros yn sefydlog a bod gofalywyr plant yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi yn eu cymunedau lleol, gan annog hyder ac annibyniaeth. Mae'r agwedd therapiwtig wedi'i chefnogi gyda threfniadau seibiant ymarferol a rheolaidd, gan gynnwys dros nos.
- Agwedd gyson ynghylch lleoliadau fel addysg, y cartref a'r gymuned a bydd yn helpu gofalywyr i deimlo eu bod yn fwy gwydn ac wedi'u cefnogi i ofalu am blentyn gydag anghenion cymhleth.
- Agwedd radical at gynnal a chefnogi plant gydag anghenion cymhleth mewn lleoliadau gofal maeth lleol gyda gwasanaethau cefnogi amlddisgyblaeth. Bydd hyn yn lleihau'r angen i gomisiynu lleoliadau preswyl annibynnol a lleoliadau maethu annibynnol nad yw'r gwasanaeth yn gyfrifol am reoli'r ansawdd.



Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Safon Ansawdd 6 - Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

Beth mae ein Harolwg Dinasyddion wedi'i ddweud wrthym

Pobl yn dweud eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw

Mae 87% o ofalwyr, 86% o blant a 86% o oedolion yn cytuno eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw. I lawer, mae'n bwysig y gallant aros yn eu cartref eu hunain am cyn hired â phosibl, ac i ofalwyr, mae'n rhaid bod yr amgylchedd cartref yn gallu hwyluso eu swyddogaeth, e.e. ar gyfer gweithgareddau symud a lleoli, lle bydd angen addasiadau yn aml. Mae aros gartref yn cyd-fynd â chadw rhwydwaith o deulu, ffrindiau, cymdogion a'r gymuned ehangach ac felly mae'n ffactor pwysig wrth fesur llesiant.

Plant a phobl ifanc yn dweud eu bod yn hapus gyda'r bobl y maent yn byw â nhw

Rhoddodd 78% o blant a phobl ifanc wybod eu bod yn hapus gyda'r bobl y maent yn byw gyda nhw, mewn nifer o leoliadau.

“Mae pawb yn fy nhŷ yn fy ngharu ac rwyf i'n eu caru nhw.”

Pobl yn rhoi gwybod eu bod wedi cael gofal a chefnogaeth yn eu hiaith ddewisol

Cytunodd 97% o ofalwyr, 97% o blant a 96% o oedolion y gallant gyfathrebu gyda Gofal Cymdeithasol yn eu hiaith eu hunain.

“Rydym yn siarad Cymraeg a Saesneg. Mae'n bwysig iawn i ni ein bod yn cael cyfle i siarad Cymraeg weithiau gyda phobl yn y Gwasanaethau Cymdeithasol”

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Oedolion ifanc yn dweud eu bod wedi derbyn cyngor, cymorth a chefnogaeth i'w paratoi i fod yn oedolyn

Roedd 68% o blant 16 neu 17 oed a 73% o oedolion 18-24 oed yn cytuno gyda'r datganiad hwn, gyda'r sylwadau ychwanegol yn awgrymu bod pobl ifanc yn gwerthfawrogi cefnogaeth eu rhieni/gofalwyr i'w harwain a gallant deimlo ar goll a heb gyfeiriad os nad yw hyn yn cael ei ddarparu neu ei gymryd.

Pobl yn dweud eu bod yn dewis byw mewn cartref gofal preswyl

Roedd 78% o oedolion yn cytuno mai eu dewis nhw oedd byw mewn cartref preswyl, gyda sylwadau yn awgrymu bod y penderfyniad hwn yn cael ei wneud yn dilyn ymgynghoriad gyda'r teulu a chynghor gan weithwyr proffesiynol wedi i gyflyrau meddygol neu ddirywiad corfforol ddod yn anodd ymdopi â nhw.

Pa mor dda ydym ni'n gwneud?

Mae 43% o'r holl adawyr gofal mewn addysg, hyfforddiant neu waith 12 mis ar ôl gadael gofal (PMC34a), a 26% 24 mis ar ôl gadael gofal (PMC34b). Nid yw hyn gystal â'r llynedd, a hoffem wneud yn well. Nid yw bob unigolyn sy'n gadael gofal yn cadw mewn cysylltiad – mae hyn yn seiliedig ar y rhai sydd dal mewn cysylltiad â ni.

Mae 5% o unigolion sy'n gadael gofal wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn (PMC35). Mae hyn yn well na'r llynedd, ac yn llai na hanner y cyfartaledd ar gyfer Cymru (data 2016/17).

Llwybr Cefnogaeth a Llety Cadarnhaol Pobl Ifanc

Rydym yn gweithio yn galed iawn i wella canlyniadau i bobl ifanc. Datblygwyd cynllun i greu agwedd newydd i helpu pobl ifanc i aros yn eu rhwydweithiau teuluol lle bynnag y bo'n bosibl, neu i gael mynediad i dai addas a'u cynnal. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc 16-34 oed ac unigolion sy'n gadael gofal hyd at eu pen-blwydd yn 25 oed.

Nod y cynllun yw gweithio yn effeithiol ledled y Cyngor, a gyda phartneriaid i ddarparu agwedd integredig sy'n canolbwyntio ar:

- Sicrhau bod pobl ifanc, eu teuluoedd a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw yn cael gwybodaeth ac arweiniad i ddeall dewisiadau tai.
- Atal argyfwng tai yn rhagweithiol.
- Gwneud yn siŵr bod ein prosesau, gan gynnwys asesu a dyrannu tai, yn glir i bobl ifanc.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

- Ystod addas o ddewisiadau llety a chefnogi sy'n rhoi gwerth am arian i ddiwallu anghenion amrywiol pobl ifanc.
- Helpu pobl ifanc i gael mynediad i lety sefydlog a'i gynnal.

Bydd y prosiect yn targedu digartrefedd ieuencid trwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan trwy agwedd amlddisgyblaeth ac asiantaeth.

Hyd yma, mae datblygiadau wedi arwain at sicrhau fflat gadael gofal fel adnodd symud ymlaen, gan ganolbwyntio ar gefnogi unigolion sy'n gadael gofal i baratoi ar gyfer annibyniaeth, rheoli cyllid yn llwyddiannus a chynnal tai sefydlog.

Nesaf

Rydym yn bwriadu ceisio datblygu darpariaeth anghenion llety ar gyfer pobl ifanc trwy weithredu 'siop un alwad' ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ddiodef digartrefedd a fflatiau un ystafell wely a fflatiau stiwdio fforddiadwy.

Tŷ Gofal Ychwanegol

Mae ein Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol yn rhoi cyfle i breswylwyr fyw mewn amgylchedd modern, addas i oedran, sy'n rhoi cyfle iddynt fyw yn annibynnol ac ymwneud yn gymdeithasol yn rheolaidd. Mae'r adborth a ganlyn yn dangos cyfleustod a hyblygrwydd bywyd un dynes wedi iddi symud i Llys y Coed yn Llanfairfechan.

Astudiaeth achos

“Mae fy nain wedi bod yn Llys y Coed ddwywaith ar gyfer gofal seibiant ac roedd wrth ei bodd. Bellach mae ganddi ei fflat ei hun yma ac mae'n symud i mewn heddiw, ac mae hi wedi gwirioni. Ar ôl byw yn ei thŷ am 60 mlynedd, nid oeddem yn meddwl y byddai eisiau gadael ei chartref, ond mae cael 'blas' o Llys y Coed wedi ei chyffroi. Mae hi'n ddynes gymdeithasol iawn, ond mae hi angen gofal a chefnogaeth, felly mae Llys y Coed yn berffaith; mae hi'n cael cinio gyda'r preswylwyr eraill, yn chwarae bingo a gweithgareddau eraill, ond pan mae hi eisiau bod ar ei phen ei hun gall hi fynd i'w fflat lle bydd gofalwr hefyd yn coginio bwyd iddi.

Mae'r staff yn Llys y Coed yn wych ac yn mynd o'u ffordd i nain. Maen nhw wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni drwy gydol y broses hefyd. Mae'r fflatiau yn hyfyd, mae gweithiwr trin gwallt ar y safle, lolfeydd a llyfrgell. Does dim byd y gallwn ei feirniadu am y lle.”



Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Cynnydd ar Mwy na Geiriau

Nod hwn yw cryfhau darpariaeth gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf, gan ddefnyddio sgiliau ac adnoddau cyfredol.

Darparwyr Gofal Allanol

Rydym wedi bod yn ystyried gallu ein Darparwyr Gofal Allanol a staff gofal cartref i gyfathrebu yn effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, byddwn yn ymweld â chartrefi gyda lefelau isel o staff sy'n siarad Cymraeg i hyrwyddo Mwy na Geiriau.

Gweithlu Mewnol

Rydym hefyd wedi bod yn edrych ar faint o'r staff mewnol sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg, ac mae nifer uchel o staff Conwy wedi mynegi ddiddordeb mewn gwersi Cymraeg trwy'r cynllun Cymraeg yn y Gwaith sy'n cael ei ddarparu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg; bydd y gwersi yn cychwyn ym mis Medi 2018. Bydd pob gweithiwr newydd rwan yn cael gwybodaeth am weithio yn ddwyieithog trwy ein ffurflen sefydlu newydd. Cam gweithredu allweddol ar gyfer 2018 fydd monitro a rhoi gwybod am y nifer sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg Gwaith.

Cynnig Gweithredol

Rhoddir gwybod i'r Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Gwasanaeth am ddata chwarterol ar y cynnig gweithredol, ac mae perfformiad yn dangos cynnydd da.

Rhaglen MA mewn Gwaith Cymdeithasol – Prifysgol Bangor

Adolygwyd y Cytundeb Partneriaeth Tri gyda Phrifysgol Bangor (Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy) yn 2017 fel rhan o broses ailddilysu'r Rhaglen MA. Sefydlwyd cytundeb partneriaeth newydd i fynd i'r afael â'r heriau y mae partneriaid yn eu profi wrth recriwtio gweithwyr cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg. Bydd y garfan myfyrwyr 2018 sy'n ymgymryd â lleoliadau yn yr awdurdodau lleol yn ddwyieithog a rhagwelir, ar ôl iddynt gymhwyso, y byddant yn cael eu recriwtio gan bartneriaid i gynyddu nifer y gweithwyr cymdeithasol Cymraeg yn y gweithlu.

Gwirfoddoli yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Astudiaeth achos

Mae ein Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wrthi'n gweithio gyda pherson ifanc (P) sydd wedi'i wahardd o sawl ysgol priif ffrwd ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion oherwydd ymddygiad heriol tuag at staff dysgu a disgyblion eraill. O ganlyniad, roedd ei gyfnodau mewn addysg yn achlysurol a threuliodd amser sylweddol heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Tuag at ddiwedd 2017, cytunodd yr

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Awdurdod Lleol y gallai P fynychu hyfforddiant un i un ddau fore yr wythnos ar yr amod bod oedolyn priodol hefyd yn mynychu i leihau unrhyw risgiau. Nid oedd prif ofalwr P yn gallu rhoi cefnogaeth oherwydd ei broblemau iechyd ei hun, felly dechreuodd y Rheolwr Achos a'r Cydlynnydd Gwirfoddolwyr broses gydweddu i ddod o hyd i wirfoddolwr gyda'r sgiliau a'r profiad perthnasol i gefnogi P.

Ar ôl dod o hyd i rywun addas, a chynnal cyfarfodydd cyflwyno, cytunodd P a'r gwirfoddolwr y byddant yn cyfarfod tiwtor mewn man canolog yn y gymuned ddwywaith yr wythnos. Dros y misoedd, dechreuodd P a'r gwirfoddolwr adeiladu perthynas a threulio amser cyn neu ar ôl y gwersi yn trafod agweddau eraill o fywyd P, gan gynnwys dyheadau a chymhelliant, teulu, perthnasau a throsedd. Darparodd y gwirfoddolwr y model rhag-gymdeithasol yr oedd P ei angen. Pum mis i mewn i'r hyfforddiant, adolygodd yr Awdurdod Lleol y trefniant. Cytunwyd bod y risgiau gan P yn flaenorol wedi'u lleihau ac roedd y tiwtor yn hapus i symud ymlaen heb oedolyn priodol yn bresennol. Er mwyn dod â'r berthynas broffesiynol i ben yn briodol ar gyfer P a'r gwirfoddolwr, cynhaliwyd sawl cyfarfod cau gan roi cyfle iddynt ddweud hwyl fawr.

Tîm Ymyrraeth Gynnar ac Atal – Monitro ein Perfformiad

Mae ein Tîm Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn y Gwasanaeth Anabledd yn cynnig ymateb cyntaf i unigolion sydd wedi eu cyfeirio atom ac sydd:

- Dan 65 oed ac ag anabledd corfforol
- Unrhyw oedran, gydag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrâu

Mae'r tîm yn cynnig cefnogaeth gyda therapi galwedigaethol, cyfathrebu, ail sefydlu ac eirioli ac mae'n bwysig bod yr holl bartion perthnasol yn cydweithio i ddarparu'r lefel orau o gefnogaeth i'r unigolyn. Mae archwiliad diweddar o weithgaredd atgyfeirio therapi galwedigaethol (OT) y tîm yn awgrymu **bod** hyn yn digwydd.

- O fewn cyfnod o ddeuddeg mis, cafwyd 482 o atgyfeiriadau therapi galwedigaethol.
- Roedd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau yn gofyn am asesiad o lety byw, preifat a phreswyl, neu broblemau eraill yn ymwneud â thai ac addasiadau.
- Yn ystod y cyfnod deuddeg mis, caewyd 241 achos ac ar ôl adolygu, **nid** oedd 82% wedi'u hail atgyfeirio.
- Roedd yr 18% a gafodd eu hail atgyfeirio o fewn deuddeg mis rŵan wedi eu lleoli gyda gwahanol therapyddion yn y Gwasanaeth Anableddau Integredig, heb un therapydd unigol yn gyfrifol am nifer anghymesur o ailatgyfeiriadau.

Mae canlyniadau'r archwiliad yn awgrymu bod y Therapyddion Galwedigaethol yn diwallu canlyniadau personol y defnyddwyr gwasanaeth yn llwyddiannus am o leiaf deuddeg mis ar ôl dod i ben, ac ar gyfer tua 8 allan o bob 10 o bobl a aseswyd.

Cymorth gyda gwaith

Mae prosiect OPUS Conwy wedi dathlu ei flwyddyn gyntaf o gefnogi dinasyddion 25 oed a hŷn i ddod o hyd i waith. Mae'r tîm yn cynnwys mentoriaid, cyngor ar hawliau lles a therapi galwedigaethol, ac yn cefnogi pobl i oresgyn rhwystrau i ddod o hyd i waith, cyfleoedd gwirfoddoli neu gymwysterau gwaith. Hyd yma mae 100 o bobl wedi'u cefnogi ar eu taith i waith.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Mae'r prosiect ADTRAC yn cefnogi pobl ifanc 16 i 24 oed i symud i waith, hyfforddiant neu gyfleoedd gwirfoddoli a chyflawni eu nodau.

Astudiaeth achos

Daeth 'A' i OPUS heb gymwysterau ac roedd wedi bod yn ddiwaith ers dros flwyddyn. Roedd wedi bod yn gwneud cais am swyddi adeiladu ond nid oedd â'r tystysgrif lechyd a Diogelwch angenrheidiol i weithio ar safle adeiladu bellach. Roedd ganddo flynyddoedd o brofiad ond nid oedd yn gallu fforddio'r hyfforddiant gan ei fod yn ddiwaith; roedd y teulu hefyd yn disgwyl eu babi cyntaf.

Gwnaethom lwyddo i gefnogi 'A' i ymgymryd â hyfforddiant a chwblhau arholiad ysgrifenedig i gael y dystysgrif lechyd a Diogelwch angenrheidiol. Cafodd 'A' swydd yn fuan wedyn a dywedodd wrth y tîm:

"Rwyf wrth fy modd ac yn gyffrous ynglŷn â dyfodol fy nheulu."

Sut Ydym ni'n Cyflawni yr Hyn Rydym ni'n ei Wneud

Ein Gweithlu a Sut Rydym ni'n Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Yn 2016-17 cynhaliwyd dadansoddiad o'r gweithlu a nododd nifer o risgiau:

- Trosiant uchel o staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau preswyl a gofal cartref yng Nghonwy.
- Roedd cyfraddau cymwysterau gweithwyr gofal ychydig yn uwch na 50%.
- Mae'r sector Gofal Cymdeithasol yn profi heriau sylweddol wrth recriwtio staff i'r sector.
- Roedd gan reolwyr Gofal Cymdeithasol newydd ddiffyg cyfleoedd dysgu i ddatblygu eu sgiliau rheoli.

I liniaru'r risgiau, gwnaethom ymgymryd â'r camau gweithredu a ganlyn:

- Creu Partneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol Conwy; mae'r bartneriaeth wedi'i chefnogi drwy Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector annibynnol, y trydydd sector, y sector cyhoeddus, addysg a darparwyr hyfforddiant.
- Dyrannu cyllid ychwanegol i gefnogi'r nifer sy'n ymgymryd â'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) yn y gweithlu gofal preswyl a gofal cartref, gan arwain at gynnydd o 11% yn nifer y gweithwyr gofal sydd â chymhwyster cyfredol.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

- Gan weithio gyda darparwyr Gofal Cymdeithasol a Choleg Llandrillo, byddwn yn lansio rhaglen Profiad Gwaith Gofal Cymdeithasol Conwy.
- Mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych, rydym wedi darparu rhaglen addysgu rheolwyr newydd.
- Cefnogi Rhaglen Cam i Fynu i Reoli Cymru Gyfan

Heriau: Mae Partneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol Conwy wedi llwyddo i ymgysylltu â darparwyr gofal oedolion. Ond, mae angen i ni sicrhau ein bod yn ymgysylltu a chynnwys darparwyr gwasanaethau plant o'r trydydd sector.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2014 (RISCA).

Thema sylfaenol gofynion RISCA yw rhoi tystiolaeth o 'ansawdd' ym mhob agwedd o ddarpariaeth gwasanaeth. Trwy weithio gyda Choleg Llandrillo rydym wedi datblygu rhaglen ddysgu achrededig ar gyfer rheolwyr Gofal Cymdeithasol. Bydd hyn yn eu galluogi i arddangos pwysigrwydd y broses gwella ansawdd yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol a llesiant, gwella darpariaeth gwasanaethau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth.

Rydym wedi cynnal gweithdai a briffiau ar draws y sector i sicrhau bod rheolwyr yn hollol ymwybodol o ofynion RISCA.

Heriau: Cefnogi'r sector gofal yn y cartref i ymgymryd â'r cofrestriad. I gyflawni hyn bydd angen i ni ddyrannu rhagor o adnoddau i'r sector ar draul rhaglenni dysgu eraill.

Cyflawni Canlyniadau

I gefnogi'r gweithlu i weithio i'r canlyniadau rydym wedi darparu hyfforddiant canlyniadau a bydd hyn yn parhau drwy gydol 2018. Er bod yr hyfforddiant yn rhoi'r wybodaeth a sgiliau angenrheidiol i'r gweithiwr i gefnogi darparu canlyniadau, yr her ar gyfer Tîm Datblygu a Dysgu'r Gweithlu yw cefnogi'r sector wrth drosglwyddo dysg yn arferion. Felly yn 2018, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Darparu sesiynau byr i staff yn canolbwyntio ar ddysgu elfennau allweddol o'r cwrs hyfforddiant – bydd y sesiynau yn rhai byr ac yn cynorthwyo wrth atgyfnerthu'r dysg a gafwyd o'r cwrs hyfforddiant.
- Ar ôl cwblhau bob cwrs hyfforddiant *darparu canlyniadau* byddwn yn darparu adroddiad yn crynhoi'r adborth gan hyfforddeion, yr heriau y maent wedi'u wynebu ac yn argymhell camau gweithredu i gefnogi trosglwyddo dysg.

Dementia


Rydym wedi comisiynu gweithiwr proffesiynol arweiniol dementia i weithio gyda staff cartrefi gofal i asesu arferion dementia – gan weithio gyda

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

staff, preswylwyr a'r teulu. Mae'r agwedd o gyflwyno dysg i'r cartref yn hwyluso dysg yn y gweithle, ac yn cynnwys preswylwyr yn y broses ddysgu yn hytrach na'r theori. Byddwn yn ailymweld â'r cartref y flwyddyn nesaf i asesu lefel y newid ac effaith y newid diwylliant.

Diogelu

Mae cynlluniau newydd yn ystod 2017-18 wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy (CGGC) i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu sylfaenol i wirfoddolwyr yng Nghonwy. Rydym yn cefnogi'r Grŵp Partneriaeth Gofal Plant Datblygiad Blynyddoedd Cynnar i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu. Mae hyn hefyd yn cefnogi ein targed corfforaethol, bod pobl yn ddiogel ac yn teimlo yn ddiogel, a'r ymgyrch genedlaethol i sicrhau bod diogelu yn fusnes i bawb.



Diogel

Targed ar gyfer Conwy – Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.

Rydym eisiau i gymunedau gydweithio er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel.

Byddwn yn canolbwyntio ar:

- gryfhau trefniadau diogelu ar draws y Cyngor
- cael cymunedau sy'n cadw llygaid ar bobl sy'n agored i niwed
- helpu pobl i wybod beth ddylen nhw ei wneud i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

Diogel

Heriau: Mae'r gwaith gyda CGGC wedi tynnu sylw at ddiffyg sylweddol ar gyfer y 3ydd sector wrth gael mynediad i hyfforddiant diogelu. Hefyd, pwysleisiodd gwerthusiad y rhaglen hyfforddiant yr angen i hyfforddi'r rhai hynny sy'n rheoli gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu. I fynd i'r afael â hyn, rydym wedi comisiynu CGGC i ddarparu hyfforddiant i reolwyr gwirfoddol ac yn ystod Wythnos Diogelu 2019 byddwn yn cynnal digwyddiad Diogelu a Gwirfoddoli ar y cyd gyda CGGC.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Er y pwysau ariannol presennol, mae Conwy yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau y gallwn ar gyfer ein preswylwyr. Mae Gofal Cymdeithasol hefyd wedi gorfod canfod gwerth £2.4m o arbedion yn 2017/18. Rydym yn parhau i ddiogelu darpariaeth gwasanaeth uniongyrchol a cheisio sicrhau gwerth am arian, bod yn effeithlon a pheidio dyblygu.

Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o ganlyniadau cenedlaethol ac yn gosod dyletswydd ar gyffwrdd cyhoeddus i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd penderfyniadau. Dylai fod yn egwyddor trefnu canolog i ystyried effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd penderfyniadau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r 7 nod a 5 ffordd o weithio wedi'u halinio i 8 Canlyniadau Dinasyddion Conwy.

Mae meysydd blaenoriaeth eraill sydd wedi cael eu hystyried yn cynnwys:

- Creu Cymunedau Cryf Llywodraeth Cymru
- Symud Cymru Ymlaen
- Amcanion Lles Llywodraeth Cymru (2016-2021)

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys camau gweithredu sydd yn rhagweithiol nid yn ymatebol, sydd â'r nod o weithio tuag at effaith tymor hirach, wedi cael eu hintegreiddio wrth ystyried sut maent yn cyfrannu at y 7 Nod Lles ac maent yn gydweithredol o ran y ffocws ar weithio'n agos gyda chymunedau - felly maent yn rhan o berchen a gweithio ar y cyd i ddiwallu Canlyniadau Dinasyddion. Mae blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol wedi cael eu hystyried gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych er mwyn edrych lle mae blaenoriaethau yn effeithio ar sefydliadau cyhoeddus eraill a lle mae yna gyfleoedd ar gyfer cydweithio.

Roedd cymunedau yn rhan o ddatblygu'r blaenoriaethau, a bydd y Cyngor yn parhau i gynnwys cymunedau yn y dyfodol, yn enwedig trwy gysylltu trafodaethau cymunedau lleol drwy ddatblygu cynlluniau lleoedd. Mae ein themâu trawsbynciol yn cyfeirio at bwysigrwydd asesu ein gweithredoedd a phenderfyniadau pwysig i gael effaith gadarnhaol ar drechu tlodi, cydraddoldeb a hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae Cynghorwyr yn herio achosion busnes a gwerthusiadau trefniadau monitro newid i wasanaethau yn gadarn er mwyn asesu bod yr effaith yn effeithiol. Mae proses ymgysylltu â budd-ddeiliaid Conwy yn gynhwysfawr, ac mae'r Cyngor yn adolygu a gwella effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau yn rhagweithiol. Y llynedd, gwnaethom adolygu ein Swyddogaeth Drosolwg a Chraffu i ystyried a oedd yn dal i weithio

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

yn effeithiol ac i ystyried unrhyw welliannau. O ganlyniad, mae gan Gofal Cymdeithasol ei Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ei hun bellach.

Rhaglen Integreiddio'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg

Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar y Rhaglen Integreiddio Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg, sy'n cynnwys staff gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill. Mae'r rhaglen wedi'i chynnal dros y 17 mis diwethaf, gyda'r gwaith yn cael ei wneud trwy dasgau neu brosiectau gyda'r nod o gyflawni'r buddion a ganlyn:

- Staff yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn ymrwymo i un weledigaeth ac un tîm Gofal Cymdeithasol ac Addysg
- Gwell dealltwriaeth/tryloywder ar draws y gwasanaeth mewn perthynas â chyfrifoldebau, rolau a swyddogaethau
- Cydnabod a defnyddio arbenigedd ar draws y gwasanaeth i wella arferion ac i gyflwyno gwelliannau i'r gwasanaeth
- Cyfrannu at ffyrdd mwy effeithlon o weithio; a **thrwyl gyflawni'r manteision uchod**,
- Gwella darpariaeth gwasanaeth a deilliannau ar gyfer plant, oedolion a theuluoedd

Er ei bod yn rhy fuan ar hyn o bryd i weld tystiolaeth bod y buddion yn cael eu cyflawni, mae'r newidiadau ar waith yn awgrymu bod cynnydd yn cael ei wneud. Mae'r newidiadau hyn yn amrywio, o arferion ac arbenigedd gwaith ar y cyd, hyfforddiant a rhannu gwybodaeth a lleihau dyblygu, i ddatblygu modelau gwaith newydd i gefnogi teuluoedd. Mae rhai enghreifftiau wedi'u cynnwys isod:

- Staff yn deall swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd yn well ar draws y gwasanaeth, gan ddatblygu perthnasau a chyfleoedd integreiddio.
- Cydweithio e.e. trwy'r Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Gwasanaethau Anabledd: Hyfforddiant ar y Cyd
- Datblygu canlyniadau a chamau gweithredu Gwasanaethau Addysg a Gofal Cymdeithasol ar y cyd.

Edrych ymlaen at 2018-19 a thu hwnt

Comisiynu

Rydym newydd gynhyrchu ein [strategaeth gomisiynu](#) sy'n nodi sut y bydd Gofal Cymdeithasol Conwy yn cydweithio gyda dinasyddion, staff, cymunedau, gwirfoddolwyr a phartneriaid i gomisiynu gwasanaethau sy'n darparu canlyniadau, gwell iechyd a lles, gweithlu y gofalir amdanynt a gwell gwerth am arian. Mae'n ceisio darparu'r hyn sy'n bwysig i ddinasyddion a rhoi dewis a rheolaeth iddynt dros eu bywydau, yn ogystal â chyflawni ein gweledigaeth, "cydweithio gyda'n cymunedau i sicrhau bod pawb yn gallu cael y gorau allan o fywyd".

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Mae'n rhaid i ni newid y modd y byddwn yn comisiynu a gweithio, gan fod galw cynyddol ar wasanaethau a bod anghenion dinasyddion yn dod yn fwy cymhleth. Mae'n rhaid i ni ddarparu gwasanaethau lleol, o ansawdd gyda llai o adnoddau.

Rydym wedi datblygu wyth amcan strategol a'n cynllun comisiynu, sy'n nodi beth yr ydym yn bwriadu ei ddarparu dros y tair blynedd nesaf. Rydym wedi eu seilio ar y Nodau Pedwarplyg, a nodwyd yn yr Adolygiad Seneddol o Ofal Cymdeithasol (Ionawr 2018), ac ymchwil, data a'r hyn y mae dinasyddion a phartneriaid wedi'i ddweud wrthym trwy Sgwrs y Sir ac ymgynghoriad.

Amcanion Strategol

Amcan Strategol 1 – Canolbwyntio ar ganlyniadau lles

Byddwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau gan ddefnyddio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol (Adran 10) a byddwn yn parhau i weithio tuag at gynnwys y rhain ym mhob agwedd o'n gwaith a chefnogi darparwyr i wneud yr un fath.

Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys cyfrifoldebau y bydd y dinasyddion eu hunain yn ymgymryd â nhw i'w helpu i gyflawni eu llesiant eu hunain.

Mae'r Iaith Gymraeg a'n cynnig gweithredol yn sylfaenol i ddarparu'r canlyniadau hyn.

Amcan Strategol 2 - Atal

Rydym eisiau i ddinasyddion fod yn iach, aros yn iach am hirach ac atal neu oedi eu hangen am ofal a chefnogaeth.

Amcan Strategol 3 - Ymyrraeth gynnar

Byddwn yn cydweithio i nodi meysydd ar gyfer ymyrraeth gynnar a gweithredu cyn gynted â phosibl fel bod dinasyddion yn aros yn annibynnol, bod teuluoedd yn wydn a bod anghenion plant yn lleihau.

Amcan Strategol 4 – Cydweithio

Byddwn yn cydweithio:

- Gydag unigolion, teuluoedd a chymunedau gan ddefnyddio agwedd wedi'i chyd-gynllunio a'i chyd-gynhyrchu fel y bydd gan ddinasyddion fwy o farn, dewis a rheolaeth. Sicrhau ymglymiad cyfartal.
- Gydag ystod eang o bartneriaid a phartneriaid corfforaethol yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddatblygu modelau newydd o ofal a gwneud defnydd gorau o lywodraethu ac adnoddau ar y cyd.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

- Defnyddio cryfderau cymunedol cyfredol i greu cymunedau cryfach, mwy cynaliadwy.
- Canolbwyntio ein darpariaeth ar lefel leol fel bod anghenion dinasyddion yn cael eu diwallu yn lleol, rŵan ac yn y dyfodol.
- Trwy ddefnyddio ffyrdd arloesol o gynnwys dinasyddion, yn enwedig y rhai anodd i'w cyrraedd.
- Datblygu perthnasau da gyda'n holl bartneriaid a dysgu gyda'n gilydd.

Amcan Strategol 5 – Deall ein cwsmeriaid, ein gweithlu a'n marchnadoedd

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ystod eang o ddata a gwybodaeth i ddatblygu arferion seiliedig ar dystiolaeth fel ein bod yn adnabod ein dinasyddion, ein gweithlu a'r marchnadoedd yr ydym yn gweithio gyda nhw rŵan ac yn y dyfodol.

Bydd y gweithlu gofal wedi'u hymgysylltu, eu cefnogi, eu hyfforddi ac ag agwedd o welliant parhaus. Rydym eisiau i Gofal Cymdeithasol yng Nghonwy fod yn lle gwych i weithio.

Bydd sefydlogrwydd a chynladwyedd y farchnad yn sylfaenol i'r gwaith yr ydym yn ei wneud a byddwn yn datblygu ein hagwedd at siapio'r farchnad, cyflenwi a'r galw am wasanaethau fel y gallwn ddatblygu ffyrdd arloesol o weithio i ddiwallu anghenion lleol a datblygu cadwyni cyflenwi moesol.

Amcan Strategol 6 – Mae dinasyddion yn ddiogel

Bydd diogelu yn cael ei integreiddio ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, fel y gall ddinasyddion fyw yn rhydd rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.

Bydd y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu yn ddiogel.

Mae arferion cyflogaeth moesegol yn ein gwasanaethau a gomisiynwyd yn bwysig a byddwn yn gweithio gyda'n darparwyr i sicrhau bod ein holl arferion yn foesegol o fewn ein cadwyn gyflenwi mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol ac arferion cyflogaeth anfoesegol. Mae gan Gomisiynu hefyd ran allweddol i'w chwarae wrth ddweud NA i gaethwasiaeth fodern.

Amcan Strategol 7 – Ansawdd a gwerth am arian

Bydd ansawdd hefyd wedi'i integreiddio ym mhopeth a wnawn.

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau darpariaeth gwasanaethau a gofal o ansawdd uchel, pwy bynnag sy'n ei ddarparu.

Byddwn yn comisiynu gwasanaethau o ansawdd uchel ac wedi'u personoleiddio a byddwn yn gwirio ansawdd ein gwasanaethau, profiadau dinasyddion a chynllun gwella ansawdd fel ein bod yn dysgu a gwella yn barhaus.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Bydd gennym agwedd wedi'i thargeddu at ddefnyddio adnoddau a byddant yn cael eu defnyddio yn effeithlon ac effeithiol a byddwn yn canfod a dileu gwastraff a fydd yn moderneiddio ein hagwedd at gomisiynu.

Byddwn yn dechrau edrych ar y Gwerth Cymdeithasol y gallwn ei greu trwy wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r effaith y maent yn ei gael ar ein cymunedau.

Amcan Strategol 8 - Technoleg

Byddwn yn datblygu ymhellach ein defnydd o dechnoleg arloesol, er enghraifft trwy ymestyn teleofal/technoleg gynorthwyol/teleiechyd i wella ein gwasanaethau, i gynnal/hyrwyddo annibyniaeth unigolion a lleihau'r angen am ofal a chefnogaeth uniongyrchol.

Byddwn yn archwilio lle y gallwn weithio yn fwy effeithlon ac effeithiol gan ddefnyddio technoleg, gan ganolbwyntio ar awtomatiaeth yn fewnol a gyda'n darparwyr.

Sut fyddwn ni'n gwybod pa mor effeithiol rydym yn comisiynu?

- Gan fod y strategaeth gomisiynu yn ceisio cyflawni canlyniadau i ddinasyddion Conwy, bydd yn cyfrannu at ddarpariaeth y canlyniadau llesiant, a bydd y rhain yn cael eu defnyddio fel mesurau i asesu llwyddiant y strategaeth, ochr yn ochr â darpariaeth ein wyth amcan strategaeth a'n cynllun comisiynu.
- Yn flynyddol, byddwn yn rhoi gwybod sut bydd ein dinasyddion yn diwallu'r canlyniadau llesiant hyn.
- Bydd y strategaeth gomisiynu yn cael ei hadolygu ar ôl tair blynedd, neu'n gynt os oes angen gwneud newidiadau.
- Bydd y cynllun comisiynu yn cael ei fonitro yn flynyddol a rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy

Rhagor o Wybodaeth a Dogfennau Pwysig

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<https://socialcare.wales/hub/sswbact>

Arolygaeth Gofal Cymru

<https://careinspectorate.wales/>

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

<http://www.northwalessafeguardingboard.wales/>

Dewis Cymru

<https://www.dewis.wales/>

Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

<https://www.northwalescollaborative.wales/>

Strategaeth Gomisiynu Conwy

<http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Policies-Plans-and-Reports/How-we-Commission-Services.aspx>

Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2016-17

www.conwy.gov.uk/en/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Policies-Plans-and-Reports/Annual-Report.aspx

Polisi Diogelu Corfforaethol

<http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Im-worried-about-somebody/Corporate-Safeguarding-Policy.aspx>

Partneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol Conwy

<http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Workforce-Development-and-Learning/Conwy-Social-Care-Workforce-Partnership/Conwy-Social-Care-Workforce-Partnership.aspx>

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

<http://www.conwy.gov.uk/en/Council/Conwy-and-Denbighshire-Public-Services-Board.aspx>